# Hijinx 10

## Gŵyl Undod
## Unity Festival



ffilm | theatr | dawns | theatr stryd | comedi | cabaret | ar-lein
film | theatre | dance | street theatre | comedy | cabaret | online

# Ffwrnes | Llanelli

## 1 & 2 Gorffennaf | July 2022

Ewch i | Visit
hijinx.org.uk

2 ddiwrnod | 30+ o berfformiadau
2 days | 30+ performances

# Disgwyliwch yr annisgwyl yn Llanelli'r mis Gorffennaf hwn.

Gŵyl Undod Hijinx yw un o'r gwyliau celfyddydau anabledd a chynhwysol mwyaf yn Ewrop a'r unig un o'i bath yng Nghymru… ac rydyn ni wedi paratoi rhaglen lawn ar gyfer ein 10fed flwyddyn!

Dros 2 ddiwrnod, gallwch weld yr enghreifftiau gorau o theatr, ffilm, dawns a theatr stryd gynhwysol o bob rhan o'r byd yma yn Llanelli ac ar-lein.

# Expect the unexpected in Llanelli this July

Hijinx's Unity Festival is one of Europe's largest inclusive and disability arts festivals and the only one of its kind in Wales… and for our 10th edition we've put together a bumper programme!

Over the course of 2 days, you will be able to see some of the best inclusive theatre, film, dance and street theatre from around the world showcased right here in Llanelli and online.

## Diolch i'r holl noddwyr a chefnogwyr sydd wedi gwneud hyn yn bosibl




## Thank you to all the sponsors and supporters who have made this possible


Canolfan Mileniwm Cymru / Wales Millennium Centre · Chapter · Porter's Cardiff · Pontio · Theatrau Sir Gâr Carmarthenshire · St David's Hall / Neuadd Dewi Sant · St Davids / Dewi Sant · Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru / Part Funded by Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales · Ariennir gan y Loteri / Lottery Funded · Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government · British Council · Severn Screen · attitude is everything · Silver · mencap Cymru · Castell Howell · Brecon Carreg

Darluniau gan | Illustrations by Matt Joyce

# Gŵyl Ffilmiau | Film Festival

## Gorffennaf 1 July



Rydym yn mynd â Gŵyl Ffilmiau gyntaf Undod i Lanelli. Mae gennym raglen lawn i'r ymylon o brif ffilmiau, ffilmiau byr, animeiddiadau, cyffro, rhaglenni dogfen, rhai yn cael eu dangos am y tro cyntaf yng Ngorllewin Cymru.

**Dyma sydd gennym ar y gweill >**

We are taking Unity's first Film Festival to Llanelli.

We have packed a programme full of feature films, short films, animations, live action, documentaries, and some West Wales premieres.

**Here is what we have planned >**

| | | |
|---|---|---|
| 2pm | **FFILMIAU BYR 1 \| SHORTS 1** (15)<br>*Glitch, An Irish Goodbye, Stairs, Love, Secret life of Tom Lightfoot*<br>**Holi ac Ateb \| Q & A** | AD CAP |
| 4.45pm | **PRIF FFILM \| FEATURE FILM** (15)<br>*Sanctuary* | AD CAP |
| 6.15pm | **FFILMIAU BYR 2 \| SHORTS 2** (12A)<br>*Stones and Dust, Filters, Mattricide, The Matthew Purnell Show*<br>**Holi ac Ateb \| Q & A** | AD CAP |
| 8.00pm | **PRIF FFILM \| FEATURE FILM** (18)<br>*Theo and the Metamorphosis* | AD CAP |

### TOCYNNAU | TICKETS

**Tocyn Diwrnod | Day Pass: £15/£10**
**Prif ffilmiau | Feature Films: £6/£4**
**Sesiynau Ffilmiau Byr | Short Films Sessions: £6/£4**






Sganiwch y cod QR i gael rhagor o fanylion | Scan QR Code for details.

# Theatr a Theatr Stryd am Ddim | Theatre and Free Street Theatre

## Gorffennaf 2 July

### Hijinx
### **the_crash.test**

Mae **the_crash.test**, sy'n stori Frankenstein ar gyfer ein hoes ni, yn olwg dywyll, chwareus ar ein perthynas â thechnoleg, sy'n cynnwys pypedwaith cipio symudiad, tafluniad ar raddfa fawr, cyfansoddiad gwreiddiol a chast cynhwysol o berfformwyr ar y llwyfan a thrwy gyswllt fideo, i gynulleidfaoedd wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.



A Frankenstein tale for our age, **the_crash.test** is a darkly playful take on our relationship with technology, incorporating motion capture puppetry, large scale projection, original composition, with an inclusive cast of performers on stage and via video link, for audiences both in person and online.

**£12 / £8** | Oed | Age: **14+** **8.00pm**

**Tony Evans** AD **Alastair Sill** CAP

### Humans Move | Hijinx
### **Crossings**

Perfformiad dawns byr chwareus a barddol sy'n archwilio themâu byd-eang mudo a pherthyn. Mae'r ddeuawd yn dilyn llwyddiant rhyngwladol 'Elevator', a goreograffwyd gan Jessie Brett.



A playful and poetic dance short exploring the global themes of migration and belonging. This duet follows the international success of 'Elevator', choreographed by Jessie Brett.

## Hijinx
## **Grumpy Unicorns**

Mae Grumpy Unicorns yn hunanesboniadol; yr hud sy'n gysylltiedig â darganfod bod uncyrn yn bodoli go iawn (!), a'r canlyniad i'r ddynoliaeth am beidio â'u cymryd nhw o ddifrif.



Grumpy Unicorns is what it says on the tin; the magic of discovering unicorns are in fact real (!), and humanity's consequence for failing to take them seriously.

## Hijinx
## **The Astronauts**

Mewn gwisg ofod lawn, mae criw o ofodwyr rhyfedd yn cyraedd planed newydd, ac yn gweld nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain. Chwe anturiaethwr mentrus yn ceisio deall y byd newydd rhyfedd maen nhw wedi glanio ynddo.



Wearing full space suits, a crew of mysterious astronauts arrive on a new planet, only to find that they are not alone. Six intrepid explorers try to understand the strange new world they've found themselves in.

## Hijinx
## **Rock Cliché**

Yn Rock Cliché, mae Rocky a Dave yn chwarae gyda'ch synhwyrau drwy gyfrwng y gitâr aer. A'r drymiau aer. A'r allweddell aer. Rock on!



In Rock Cliché, Rocky and Dave play with your senses through the medium of air guitar. And air drums. And air keyboard. Rock on!

Hijinx | Disability Arts Cymru Unity Festival Commission | Disability Arts Cymru Comisiwn Gŵyl Undod

# Solidarity of Hope - I see you

Trwy gelf weledol, perfformio, a seinwedd, mae *Solidarity of Hope – I see you* yn berfformiad celf, sain a digidol byw, amlddisgyblaethol sy'n rhoi artistiaid anabl proffesiynol yng nghanol y llwyfan i fynegi heriau a gobeithion y presennol. Bydd y perfformiad wedi'i seilio ar y syniad bod unigolion anabl ac agored i niwed "ddim eisiau cael eu symud ymaith" a'u bod nhw bellach yn cysylltu, fel carfan rymusol, i rannu eu straeon am oroesi'n gorfforol ac yn seicolegol. Trwy'r amryw heriau maen nhw'n eu hwynebu, bydd y perfformiad yn y pen draw yn dathlu'r cryfderau helaeth y mae aelodau'r gydweithfa'n eu defnyddio i oroesi a chynnal eu hymdeimlad o obaith.







Through visual art, performance, and a sound scape *Solidarity of Hope – I see you* is a multi-disciplinary live art, sound, and digital performance that places professional disabled artists centre stage to express the challenges and hopes of the moment. Underpinning the performance will be the notion that disabled and vulnerable individuals "do not wish to be removed" and are now connecting, as an empowering force, to share their stories of physical and psychological survival. Through the many challenges they encounter, the performance will ultimately celebrate the abundant strengths that members of the collective draw upon to survive and retain their sense of hope.

**Holi ac Ateb | Q & A**

## Taking Flight Theatre Company
**Meet the Detectives from the Department of Strange Events**

Dewch i gyfarfod y ditectifs o’r adran Digwyddiadau Rhyfedd, sy’n chwilio am y gwahanol a’r anarferol... gofalwch na fyddwch dan amheuaeth!



Meet the detectives from the Department of Strange Events, on the look-out for the bizarre and unusual...make sure you don't become a suspect!

## Danza Mobile
**En Vano**
**(Yn Ofer | In Vain)**

Bydd Danza Mobile yn perfformio eu darn dawns 30 munud a ysbrydolwyd gan gerflunwaith, y bylchau a’r hyn nad ydym yn ei weld y tu mewn iddynt.



Danza Mobile will be performing their 30-minute dance piece inspired by sculpture work, the gaps and what we do not see inside them.

# ACADEMI HIJINX ACADEMY

Mae 2022 yn nodi 10 mlynedd ers i’n Hacademi gyntaf gael ei ffurfio! Mae hefyd yn nodi ein 10fed Gŵyl Undod, felly mae’n eithaf arwyddocaol i ni. Eleni, fel rhan o Ŵyl Undod, bydd ein Hacademïau i gyd yn creu perfformiadau arbennig i’w dangos am y tro cyntaf fel rhan o’r ŵyl, gan ddefnyddio ein cês dillad pinc eiconig fel ysbrydoliaeth.

## Academi Gorllewin Hijinx

### A Bag for Life

Rydym yn gwylio taith ryfedd a rhyfeddol y bag grymus, cryf yn cael ei datgelu! Y cyfnodau da a drwg a phopeth rhwng y ddau sy’n cael ei daflu atom. Mae’r bag yn agor ac yn archwilio posibiliadau, gobeithion, gobaith a chredoau. Sut allech chi ddefnyddio eich “Bag am Oes?”

## Academi Canolbarth Hijinx

### Hattie's Holidays and the Case of Chaos!

Mae hi’n arweinydd taith, ond ddim yn un arferol... Maen nhw’n dwristiaid, ond mae yna rywbeth rhyfedd amdanyn nhw i gyd... Pwy ydyn nhw, beth ar wyneb y Ddaear y  maen nhw’n ei wneud a Beth sydd yn y Cês? Ymunwch ag Academi Canolbarth Hijinx ar strydoedd Llanelli ac efallai cewch chi’r ateb!

2022 marks 10 years since our first Academy was formed! It also marks the 10th edition of our Unity Festival, so it’s a pretty significant one for us. This year, as part of the Unity Festival, our Academies will all be creating special performances to be premiered as part of the festival, using our iconic pink suitcase as inspiration.

## Hijinx West Academy

### A Bag for Life

We watch the weird and wonderful journey of this powerful, mighty bag unfold! The downs and ups, the lows and highs and everything in between that gets thrown at us. The bag opens up and delves into possibilities, hopes, optimism and beliefs. How could you use your "Bag for Life?"

## Hijinx Mid Academy

### Hattie's Holidays and the Case of Chaos!

She's a tour guide, but not a Normal one.... They are tourists, but there's something strange about each of them... Who are they, what on Earth are they doing and what is in that Suitcase? Join Hijinx Mid Academy on the streets of Llanelli and you may find out!



# HIJINX SYMUDOL | HIJINX MOBILE

Gwyliwch ni ar-lein o gartref!

Estynnwch y popcorn a pharatoi oherwydd bydd Gŵyl Undod Hijinx yn cael ei ffrydio ar-lein, gyda rhaglen arbennig i fwynhau sioeau byw'r ŵyl o'ch cartref eich hun!

Gan gychwyn gyda'n Noson Gomedi ar **16 Mehefin**, byddwch yn gallu cael mynediad at rai o uchafbwyntiau'r ŵyl gan gynnwys y sioeau theatr stryd llawn ulw. Byddwch hefyd yn gallu gwylio perfformiadau gan ein partneriaid, Escena Mobile Festival yn Seville.

Am ddathlu ein 10fed ŵyl ble bynnag yr ydych? Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw ymuno â **www.hijinxmobile.com**


See us online from home!

Prepare some popcorn and get ready because Hijinx's Unity Festival will be streamed online, with a special programme to enjoy the live festival shows from the comfort of your own home!

Starting with our Comedy Night on the **16 June**, you will be able to access some of the festival highlights including the jam packed street theatre shows. You will also be able to watch performances from our partners, Escena Mobile Festival in Seville.

Want to celebrate our 10th edition wherever you are? All you need to do is join our platform **www.hijinxmobile.com**

BRITISH COUNCIL







# HYGYRCHEDD | ACCESSIBILITY

Ein nod yw gwneud yn siŵr bod Gŵyl Undod yn gwbl hygyrch i unrhyw un sydd am ddod. Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag Agwedd yw Popeth (Attitude is Everything), sef elusen sy'n gwella mynediad pobl anabl i ddigwyddiadau byw.

Mae'r amserlen drosodd yn amlygu perfformiadau sy'n cynnwys Iaith Arwyddion Prydain, Capsiynau a/neu Ddisgrifiad Sain. Mae'r map ar y dudalen nesaf yn nodi lleoliad cyfleusterau hygyrch hefyd.

Mae gwybodaeth fynediad lawn am ein holl leoliadau ar gael ar ein gwefan.

Our aim is to make Unity Festival as accessible as possible to anyone who wants to attend. We work closely with Attitude is Everything, a charity that improves disabled people's access to live events.

The schedule overleaf highlights performances that include BSL, Captions and/or Audio Description. The map on the next page highlights where access facilities are too.

Full access information about all our venues can be found on our website.

**hijinx.org.uk/unity-festival-2022-accessibility**




Map Llanelli
Llanelli Map
Parcio yr Anabl
Accessible Parking
Toiledau Hygyrch
Accessible Toilets
Dolen Clywed
Hearing Loop
Man Gwybodaeth
Info Point
Ardal Ymlacio
Chill Out Area
Man Gwyrdd agosaf
Nearest Greenspace
Cysylltiadau Trafnidiaeth
Transport Links
Maes parcio
Car Parking
Maes parcio
Car Parking
Plas Llanelly House
A484
Ffwrnes
Cyngor y Dref
Town Council
CHURCH ST
STRYD YR EGLWYS
PARK ST
STEPNEY PL
Spring Gardens
Canolfan Siopa Sant Elli
St Elli Shopping Centre
Neuadd y Dref Llanelli
Llanelli Town Hall
Maes parcio
Car Parking
Gorsaf Llanelli
Llanelli Station
Capel Bedyddwyr Maes-glas
Greenfield Baptist Church

# TREFNLEN | SCHEDULE

## Gorffennaf 2 July

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.00 | Department of Strange Events | Am Ddim \| Free | |
| 12.00 | Grumpy Unicorns | Am Ddim \| Free | |
| 12.30pm | Bag for Life | Am Ddim \| Free | |
| 1.00pm | Hattie's Holidays and the Case of Chaos! | Am Ddim \| Free | |
| 1.15pm | Department of Strange Events | Am Ddim \| Free | |
| 1.30pm | En Vano | Am Ddim \| Free | |
| 2.00pm | Crossings | Am Ddim \| Free | |
| 2.10pm | Astronauts | Am Ddim \| Free | |
| 2.40pm | Rock Cliché | Am Ddim \| Free | |
| 2.40pm | Grumpy Unicorns | Am Ddim \| Free | |
| 3pm | Grumpy Unicorns | Am Ddim \| Free | |
| 3.15pm | Department of Strange Events | Am Ddim \| Free | |
| 3.30pm | Hattie's Holidays and the Case of Chaos! | Am Ddim \| Free | |
| 4.00pm | Crossings | Am Ddim \| Free | |
| 4.00pm | Grumpy Unicorns | Am Ddim \| Free | |
| 4.20pm | Grumpy Unicorns | Am Ddim \| Free | |
| 4.40pm | Rock Cliché | Am Ddim \| Free | |
| 5.10pm | Bag for Life | Am Ddim \| Free | |
| 5.45pm | En Vano | Am Ddim \| Free | |
| 6.30pm | Solidarity of Hope | Am Ddim \| Free - Ar-lein \| Online | CAP |
| 8.00pm | the_crash.test | **£12 \| £8** Hefyd Ar-lein \| Also Online | AD |

Llwyfan Awyr Agored | Outdoor — Stiwdio — Bar/Foyer — Ar droed | Walkabout

Ar droed Awyr Agored | Outdoor Walkabout — Prif Theatr | Main House



**hijinx.org.uk/unity2022**